

Barnwr Cyflogedig yn y Tribiwnlys Cyflogaeth

Dyddiad cau: 2 Gorffennaf, 2018 - 13:00

Cyflog: £108,171

Lleoliad: Ledled Cymru a Lloegr

Gofynnwyd i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) ddewis 54 o ymgeiswyr i'w hargymell ar gyfer y swydd Barnwr Cyflogedig yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae yna swyddi gwag yn yr holl ranbarthau yng Nghymru a Lloegr a'r cyflog yw £108,171 y flwyddyn. Yn ychwanegol, mae cyflogau swyddi yn Llundain yn cynnwys £2,000 o gyflog ychwanegol a Lwfans Llundain o £2,000 y flwyddyn.

Disgwylir i'r ymarfer dewis hwn lansio am 13:00 ar 18 Mehefin, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 13:00 ar 2 Gorffennaf.

Pwy all wneud cais?

Nid yw profiad barnwrol blaenorol yn angenrheidiol. Rydych yn gymwys i wneud cais os oes gennych 5 mlynedd o brofiad cyfreithiol ar ôl cymhwyso fel:

- cyfreithiwr neu fargyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr;
- Cymrawd o Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol;
- eiriolwr neu gyfreithiwr yn Yr Alban; neu'n
- aelod o Far Gogledd Iwerddon neu'n gyfreithiwr yng Ngoruchaf Lys Gogledd Iwerddon

Yn ogystal, mae'r Arglwydd Ganghellor yn disgwyl i'r ymgeiswyr fod â phrofiad cyfredol neu brofiad blaenorol sylweddol o Gyfraith Cyflogaeth ac yn gallu gwasanaethu am gyfnod rhesymol o amser, 5 mlynedd fel arfer, cyn cyrraedd yr oedran ymddeol statudol, sef 70 oed.

Mae'r Comisiwn yn annog amrywiaeth ac mae'n croesawu ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn y farnwriaeth ar hyn o bryd. Bydd egwyddorion cystadlu'n deg ac yn agored yn berthnasol a bydd unrhyw argymhelliad i benodi ar sail teilyngdod yn unig.

Ynghylch y rôl

Mae Barnwyr Cyflogaeth yn llywyddu dros Dribiwnlysoedd Cyflogaeth ac mae'r awdurdodaeth hon yn ymwneud ag ystod eang o anghydfodau sy'n seiliedig ar gyflogaeth neu faterion sy'n ymwneud â hawliadau yn erbyn cyflogwyr, unigolion, undebau llafur, cyrff proffesiynol a chyrrff rheoleiddio. Ar hyn o bryd, mae yna dros 90 gwahanol fath o hawliadau y gellir eu dwyn gerbron Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae nifer sylweddol o hawliadau yn cynnwys honiadau o ddiswyddo annheg neu ddiswyddo ar gam, gwahaniaethu anghyfreithlon, torri amodau cytundeb, didynnu arian o gyflog yn anghyfreithlon, trosglwyddo ymgymeriadau a datgelu er lles y cyhoedd.

Gall Tribiwnlys Cyflogaeth gynnwys Barnwr Cyflogaeth a dau aelod nad ydynt wedi cymhwyso yn y gyfraith: un o'r panel gweithwyr ac un o'r panel cyflogwyr. Gall Barnwyr Cyflogaeth hefyd eistedd heb aelodau nad ydynt wedi cymhwyso yn y gyfraith mewn gwrandawiadau rhagarweiniol ac mewn mathau penodol o hawliadau. Mae hyd gwrandawiadau yn amrywio'n fawr. Yn aml iawn gyda hawliadau trac byr dim ond 1-3 awr sydd ei angen ar gyfer gwrandawriad; mae hawliadau trac safonol angen gwrandawiadau rhwng 1 a 3 diwrnod yn aml; tra gall achosion trac agored a hawliadau trac safonol mwy cymhleth gymryd hirach fyth.

Mae Barnwyr Cyflogaeth yn eistedd ledled Cymru a Lloegr, ar hyn o bryd, mewn 10 Swyddfa Ranbarthol a 28 neu fwy o ganolfannau gwrandawiadau a lleoliadau gwrandawiadau ad hoc. Byddant yn cael eu neilltuo gan y Llywydd i eistedd mewn Rhanbarth Tribiwnlys Cyflogaeth benodol. Gallant eistedd yn bennaf mewn un swyddfa neu ganolfan wrandawiadau yn y rhanbarth, ond mae'n rhaid iddynt eistedd unrhyw le yn y rhanbarth pan ofynnir iddynt wneud hynny. Hefyd, o dro i dro, efallai bydd gofyn iddynt eistedd y tu allan i'r Rhanbarth Tribiwnlys Cyflogaeth benodedig pan fydd yr angen yn codi.

Mae modd gwneud trefniadau ar gyfer gwaith rhan-amser cyflogedig ar leiafswm o 50% mewn blociau o 4 wythnos (o leiaf) ar y tro; rhaid eistedd am wythnosau cyfan oherwydd hyd a chymhlethdod achosion.

Paratoi eich cais

Trwy gydol y broses ddedhol, bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn [fframwaith cymwyseddau](#) sydd wedi'i deilwra'n benodol i rôl Barnwr Cyflogedig yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae'r cymwyseddau wedi'u halinio â'r fframwaith Sgiliau a Medrau Barnwrol a ddefnyddir gan y farnwriaeth a'r Coleg Barnwrol, ac mae'n rhestru'r ffyrdd y gall unigolion ddangos y sgiliau a'r medrau angenrheidiol wrth weithio'n effeithiol yn y swydd.

Fel rhan o'ch cais, bydd gofyn ichi ddarparu enghreifftiau, dim mwy na 250 o eiriau fesul cymhwysedd, sy'n arddangos sut mae eich profiadau yn eich gwneud yn addas ar gyfer y rôl. Ceir rhagor o wybodaeth am [gwblhau'r hunanasesiad](#) a [dewis yr enghreifftiau gorau](#) ar wefan y JAC. Fe'ch cynghorir i gychwyn paratoi eich enghreifftiau ymlaen llaw, gan neilltuo digon o amser i ddatblygu enghreifftiau perthnasol sy'n arddangos eich addasrwydd ar gyfer y swydd.

Gallwch hefyd [greu cyfrif ar-lein](#) cyn ichi wneud cais. Mae system ceisiadau ar-lein y JAC yn gofyn bod yr holl ymgeiswyr yn creu cyfrif cyn gwneud cais am swydd farnwrol. Bydd eich cyfrif yn cynnwys eich proffil personol, proffil cymeriad a phroffil amrywiaeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ar y system, felly os byddwch yn gwneud cais am swydd arall yn y dyfodol, byddwch ond angen diweddarau eich manylion, gan wneud y broses ymgeisio yn gyflymach ac yn haws.

Ynghylch y broses

Ar ôl ichi gyflwyno'ch cais, bydd pob ymgeisydd yn cael ei wahodd i sefyll prawf cymhwyso ar-lein. Yna bydd yr ymgeiswyr mwyaf teilwng yn symud ymlaen i ddiwrnod ddedhol a fydd yn cynnwys cyfweiliad sy'n seiliedig ar y cymwysiadau a chwestiynau am sefyllfaoedd damcaniaethol. Dyma'r dyddiadau ar hyn o bryd ar gyfer camau allweddol y broses:

Dyddiad lansio: 18 Mehefin 2018

Dyddiad cau: 2 Gorffennaf 2018

Prawf cymhwyso: 17 Gorffennaf 2018

Diwrnodau dethol: 10 - 18 Hydref 2018

Canlyniadau: Ionawr 2019

[Cofrestrwch i gael diweddariadau](#) trwy e-bost ynghylch cynnydd yr ymarfer hwn hyd at y dyddiad lansio.